

PROSIECT LLWYDDIANNUS

Ddwy flynedd yn ôl cyhoeddodd Cylchlythyr Gorffennaf 2007 fod Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) wedi rhoi grant o £187,000 i AMC/WAW. Y Gorffennaf hwn gallwn gyhoeddi fod Prosiect Sioeau ar Daith: Hanes Menywod Cymru wedi'i ddirwyn i ben yn llwyddiannus. Mae ein tîm wedi mynd â'r Sioeau ar Daith i 17 lleoliad ledled Cymru. Mae llawer o bobl wedi dod â'u heitemau hanesyddol i'w sganio a thynnu'u lluniau, a recordiwyd eu storïau. Mae llawer o'r eitemau hyn wedi'u rhoi i AMC/WAW, ac ar adnau i archifdai sirol, gan ychwanegu'n fawr at yr adnoddau am hanes menywod yng Nghymru. Y cyfan sydd i'w wneud nawr yw ysgrifennu'n hadroddiad i CDL, ac mae hynny ar y gweill. Bydd hwn ar gael i'n haelodau yn ein Cynhadledd yn yr Hydref.

DYDDIAD I'CH DYDDIADURON

CYNHADLEDD FLYNYDDOL A CHYFARFOD BLYNYDDOL YNG NGAERDYDD
Cynhelir Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol AMC/WAW yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd ar dydd Sadwrn a dydd Sul 17eg a 18fed Hydref 2009.

Y thema eleni fydd 'Menywod ac Iechyd' gyda nifer o siaradwyr yn trafod eu hymchwil ar fenywod, iechyd a gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Byddwn yn cyflwyno hanesion nifer o fenywod a weithiodd fel nyrsys a meddygon yng Nghymru a thu hwnt, yn seiliedig ar ddefnyddiau o'r archif a gasglwyd yn ystod ein Prosiect Sioeau ar Daith: Hanes Menywod hynod llwyddiannus. Daeth y Prosiect Sioeau ar Daith, a ariannwyd trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i ben gyda'r sioe olaf ym Merthyr Tudful ym mis Mehefin. Bydd un sesiwn yn adrodd ar y prosiect yn ei gyfanrwydd. Rydym yn cynnal Cinio traddodiadol ein Cynhadledd ar y nos Sadwrn.

Byddwn yn anfon manylion pellach atoch tua diwedd Awst, ond gobeithio y gallwch ymuno â ni am benwythnos diddorol arall.

Y SIOEAU AR DAITH OLAF

Mae'n teimlo fel mai dim ond ddoe oedd hi pan lanswyd y prosiect Sioeau ar Daith yn y Senedd yng Nghaerdydd. Rydym wedi gweld llawer o'r wlad ers hynny ac wedi cwrdd â llawer o fenywod arbennig iawn ar y ffordd.

Yn gynharach eleni daethom â Catrin Collier ac Elaine Morgan at ei gilydd yn y sioe ar daith yn Amgueddfa Pontypridd. Roedd yr ymwelwyr wrth eu bodd yn gwrandao ar eu hanesion difyr a'u geiriau ysbrydoledig. Cwrddon ni hefyd â Len "Rocky" James, cyn-baffiwr a brawd Jenny James, cymeriad chwedlonol o Bontypridd a nofiodd y Sianel yn 1951.

Yn ôl yr arfer gwelodd arbenigwyr yr Archif ystod eclectic o eitemau – gan gynnwys siôl wedi'i haddurno â gleiniau, cyfeiriadau at fenywod yn gwasanaethu, label faciwl o'r Ail Ryfel Byd a thystysgrif cymhwyster i fod yn 'nyrs gwallgofdy'.

Ar gyfer y Sioe ar Daith nesaf mentron ni i'r gogledd i Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Unwaith eto daeth yr Athro Cynthia Burek atom i rannu'i gwybodaeth am rôl menywod ym maes daeareg yng Nghymru a rhoddodd Dawn Adams o Amgueddfa Wrecsam hanes rhyfeddol a mentrus Marjorie Cottle, gywraig beic modur leol.

Roedd addysg a nyrsio yn ddwy thema gref o safbwynt yr eitemau a welon ni yn Wrecsam - yn amlwg bu'r cyfle i astudio yn y Coleg Normal ym Mangor yn gwbl allweddol yn hanes llawer iawn o ferched ifainc. Mae'n rhaid bod rhywbeth rhwng menywod Wrecsam a beiciau modur hefyd, oherwydd cyflwynwyd helmed beic modur ledr ar gyfer menyw a bu'n rhaid benthg dol o gasgliad yr amgueddfa i'w modelu i dynnu ei llun.



Mynychwyr y Sioe ar Daith yn cyrraedd Castell Cyfarthfa.

Nesaf, teithion ni i Amgueddfa Castell Cyfarthfa ym Merthyr Tudful, ar gyfer yr olaf yn y gyfres hon o Sioeau ar Daith. Roedd yr arddangosfa 'Gwir Gofnod o Gyfnod' i'w gweld yn llyfrgell Dowlais am fis cyn y Sioe ar Daith. Penderfynodd cangen Merthyr o Gymdeithas Hanes Teulu Morgannwg ganolbwyntio ar 'ddathlu menywod ym Merthyr Tudful' yn ystod eu cyfarfod ym mis Mai ac roedd nifer dda yn bresennol. Cafodd pawb yno gyfle i weld yr arddangosfa o rai o'r eitemau y mae'r Archif wedi'u caffael yn sgil y prosiect Sioeau ar Daith.

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch gyflwyno'ch cyfraniad yn ddwyieithog gwerthfawrog hynny'n fawr. Anfonwch eitemau i'w hystyried gan olygydd y Cylchlythyr at: info@womensarchivewales.org

**Dyddiad copi ar gyfer y rhifyn nesaf:
1 Medi 2009.**

Os hoffech gopi o'r Cylchlythyr hwn mewn print mawr yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Jenny ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ffoniwch 01792-874143.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Jenny Sabine ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens

www.womensarchivewales.org

01792 229 221

Roedd hi'n ddiwrnod bendigedig o braf ar gyfer ein Sioe ar Daith olaf un a'r ystafell yng Nghastell Cyfarthfa, y mwyaf ysblennydd o'n lleoliadau hyd yma. Roedd Carolyn Jacob o Lyfrgelloedd Merthyr wedi llwyddo i gasglu eitemau gan bobl na allai fynychu a daeth â darluniau o ferched y pyllau glo, ffotograffau o fenywod yn gweithio ar ben y pwll a chopi o bapur newydd y Swffragetiaid, dyddiedig 1913.

Ymwelodd Dewi Bowen, cyn-diwtor celf yr ysgol ramadeg yng Nghastell Cyfarthfa, â ni yn ei hen ystafell staff a rhannodd ei atgofion am fywyd ym Merthyr 'slawer dydd gyda Deirdre Beddoe. At hyn, rhoddodd gasgliad yn ymwneud â bywyd ei fam, Elizabeth, a oedd wedi bod yn nyrs yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, i'r archif.

Ac yna roedd popeth drosodd. Yn ystod y prosiect Sioeau ar Daith rydym wedi clywed cymaint o hanesion diddorol am fywydau menywod yng Nghymru; rhai ohonynt yn eithriadol, rhai eraill yn ddadlennol, yn ysbrydoledig, yn drist a rhai yn ddoniol. Mae pob un ohonynt yn gofnod gwerthfawr o'r gorffennol a ddylai gael ei gadw'n fyw ar gyfer y dyfodol.

Justine Hankins, Swyddog Maes

Prosiect Sioeau ar Daith: Hanes Menywod yng Nghymru



Dewi Bowen yn dangos dogfennau i Deirdre Beddoe a Helen Thomas, tra bod Steffan Walker yn recordio'i stori.

RHODDION I'R ARCHIF

Ariannol a rhai eraill

Fel gyda phob mudiad elusennol â'i brif ffynhonnell arian yn seiliedig ar yr aelodaeth, caiff y rhan fwyaf o'r gwaith ei wneud gan wirfoddolwyr. O gyfrifon ariannol, gwaith clerigol beunyddiol, cynllunio ar gyfer ehangu yn y dyfodol, a threfnu cynadleddau hyd at ychwanegu at fewnbwn y Sioeau ar Daith, caiff y gwaith ei noddi a'i gyflawni gan y Pwyllgor ac aelodau eraill AMC/WAW. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prosiect Sioeau ar Daith llwyddiannus wedi codi proffil cyhoeddus AMC/WAW yn sylweddol, ac yn ei dro, wedi ychwanegu at ei lwyth gwaith. Er mwyn i'r Archif dyfu a chynnal y momentwm a grëwyd gan y prosiect hwn, mae'n hanfodol fod ganddo fwy o gyllid.

Ar wahân i'r gweithgareddau codi arian a drefnwyd gan Angela Brunt dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chymorth grŵp craidd o aelodau, mae angen i ni ffocysu yn awr ar ffynhonnell incwm bosibl arall, sef rhoddion ariannol. Mae rhoddion yn caniatáu i bobl gefnogi'r Archif heb wneud ymrwymiad hirdymor i ymaelodi. Mae rhoi rhodd yn gyfle i roi rhodd unigol o unrhyw faint.

Yn y dyfodol mae AMC/WAW yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'i gwefan, o gyhoedduswyd ac o

daflenni aelodaeth i annog cyfraniadau. Fodd bynnag, mae llawer o'r aelodau yn mynegi dymuniad yn ystod digwyddiadau i wneud mwy o gyfraniad at waith yr Archif - un ffordd o gyflawni'r dymuniad hwnnw fyddai trwy roi rhodd. Byddai dechrau trwy annog ffrindiau a chydweithwyr i gyfrannu yn ffordd sylfaenol ond defnyddiol iawn. Byddai mynd ar ofyn personoliaethau a chwmnïau proffil uchel, gan eu hannog i roi arian neu eiddo mewn ewyllysiau yn ddwy ffordd arall bwysig o helpu.

Os ydych fel unigolyn, neu gyda grŵp o aelodau eraill, yn teimlo fod hon yn un ffordd y gallech chi gyfrannu at yr archif, neu os oes gennych syniadau neu brofiad yn y maes, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Cheryl Law

CYNHADLEDD AR Y CYD: LLAFUR ac AMC/WAW

12fed Medi 2009, Abertawe

Anrhydeddu Ursula Masson

Ursula Masson ysbrydolodd sefydlu Women's Archive of Wales / Archif Menywod Cymru ac roedd yn hanesydd uchel iawn ei pharch. Gadawodd ei marwolaeth anhymig yn Ebrill 2008 fwich mawr yn ein mudiad ni, yn ogystal ag yn Llafur, Cymdeithas Hanes Pobl Cymreig gan ei bod yn aelod ac yn gyd-olygydd ei gylchgrawn ers blynyddoedd. Gwelir ei cholli'n fawr hefyd gan gydweithwyr sy'n dysgu hanes mewn prifysgolion yng Nghymru.

I anrhydeddu bywyd a gwaith Ursula, mae Archif Menywod Cymru a Llafur yn cynnal ysgol undydd ar y cyd yn Abertawe ar Fedi 12fed. Bydd cyfraniadau gan gyfeillion a chydweithwyr Ursula yn ei hamryfal feysydd, yn ogystal â chyfle unigryw i weld tair ffilm a wnaeth Ursula a Grŵp Hanes Menywod Abertawe: *Back of the Front Line; Smiling and Splendid Women; a Swansea Conchie Controversy.*

Bydd hwn yn ddiwrnod arbennig. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron nawr. Bydd manylion a threfniadau archebu yn cael eu dosbarthu yn nes at y dyddiad.

Helen Thomas

'STILL SISTERS' – GWEITHDY MUDIAD RHYDDID MENYWOD CYMRU

Ydych chi'n cofio'r Mudiad Rhyddid Menywod? Mae llai na 40 o flynyddoedd wedi mynd heibio, ond mae darn o hanes mewn perygl o gael ei gollu yn barod, fel yn achos cymaint o hanes menywod.

Mae'r prosiect ymchwil, sy'n cael ei redeg gan y Women's Library yn Llundain, wedi ceisio cofnodi profiadau menywod a fu'n ymwneud â'r mudiad yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr trwy gynnal cyfres o weithdai lle gall 'tystion' siarad am eu profiadau, ac y gall menywod eraill sy'n bresennol ychwanegu at y darlun. Cafodd y gweithdai eu rhoi ar ffilm, ac anogwyd menywod i roi'u defnyddiau ar adnau i archifau perthnasol.

Roeddem eisoes wedi dechrau ar y broses hon yng Nghymru pan fu Ursula Masson a minnau yn gwneud ymchwil ar y MRhM yng Nghymru yn ystod 1995/6, gan gyfnewid menywod fu'n weithredol yn y mudiad a chasglu ffynonellau, a rhoddodd hyn hwb mawr i ffurfio AMC/WAW. Mae'n dda gallu ail-ymweld â'r pwnc nawr a rhoi'r mudiad yng Nghymru mewn cyd-destun ehangach.

Bu Deirdre Beddoe, Susan Edwards (Archifyd Morgannwg) a minnau'n cydweithio i gael hyd i dystion, cadeiryddion, pynciau, dyddiad a lleoliad, a chafwyd llawer

o gymorth gan Rachel Cohen, cydlynnydd prosiect y Women's Library. Yn anochel bu'n rhaid cyfaddawdu - roedd yn rhaid i'r dyddiad ffitio i mewn i amserlen Sioeau ar Daith: Hanes Menywod gan ein bod hefyd yn gysylltiedig â'r rhain; lleoliad yng Nghaerdydd oedd yr hawsaf i'w drefnu, bu'n amhosibl cysylltu ag ambell dyst posibl, neu doedd Mai 15fed ddim yn gyfleus iddynt, a gwn na chlywodd ambell fenyw a fyddai wedi hoffi bod yn bresennol am y cyfarfod er gwaetha pob ymdrech ar ein rhan ni.

Serch hynny, daeth rhyw 40 o fenywod ynghyd. Roedd y mwyafrif wedi bod yn ymwneud â MRHM eu hunain, ond daeth sawl menyw ifanc hefyd, o gywreinerwydd. Trefnwyd y diwrnod ar sail nifer o bynciau - dulliau trefnu; ymgyrchoedd; trais yn erbyn menywod; lledaenu'r gair (cyfarfodydd, cynadleddau ...) gyda sesiwn olaf 'agored', "Mae Chwaeroliaeth yn Bwerus" - atgofion personol o'r MRHM", a gyflwynwyd gan Deirdre, lle cafodd rhywun y syniad ysbrydoledig y dylen ni symud ein cadeiriau yn gylch agored a siarad yn uniongyrchol â'n gilydd.

Does dim digon o ofod yma i ddisgrifio'r dydd yn fanwl ond buon ni'n chwerrhin, yn cofio, ac ar dro yn crïo gyda'r tystion. Ychwanegodd menywod eu hatgofion eu hunain am y digwyddiadau, am grwpiau (gan gynnwys rhai mewn rhannau gwahanol o Gymru, gan gynnwys rhai Cymraeg eu hiaith), am yr hwyl ac nid anghofwyd am yr anghytuno ychwaith, ond rwy'n credu i'r rhan fwyaf ohonom a oedd yn bresennol gael ein hatgoffa yn bennaf am y cyffro a'r ymdeimlad o ysgogi newid a wnaeth y mudiad yn un mor bwysig.

Derbyniodd Rachel a minnau nifer o e-byst wedyn oddi wrth fenywod a oedd wedi mynychu – a dyma rai o'u sylwadau:

"Diolch am ddiwrnod hyfryd yng Nghaerdydd y mis diwetha; dyna'r diwrnod mwyaf cyffrous ac ysbrydoledig i mi ei gael ers tro byd!"

"Y fath amrywiaeth o brofiadau a hanesion. Mae rhai o'r hen ymgyrchwyr yn bwriadu ailgydio ynddi a gweld ble'r awn ni'r tro hwn."

"... diolch i chi am eich gwaith caled yn dod â ni at ein gilydd ar gyfer digwyddiad mor rhyfeddol yng Nghaerdydd - rwy'n dal i feddwl amdanoch ac mae grŵp ohonom a ailgyfarfu yn cwrdd eto'n fuan."

"Cefais ddiwrnod hyfryd dros ben a hytrach yn emosiynol ddydd Sadwrn wrth i fi gofio am bobl a digwyddiadau ymhell yn ôl. Mae gwaddol y blynyddoedd hynny, heb amheuaeth, wedi gadael argraff ddofn ar fywydau merched ifanc heddiw mewn cymaint o ffyrdd. Ro'n i'n 16 oed yn 1975 felly cyrhaeddes i tua diwedd y cyfnod ond rwy'n dal i allu cofio'r effaith ddwys a gafodd hyd yn oed bod ar yr ymylon ar fy mywyd l."

Roedd hi'n braf cael ail-ystyried y cyfan. Rydyn ni'n treulio cymaint o amser yn meddwl faint o ffordd sydd gennym i fynd eto, rydym yn anghofio pa mor bell rydyn ni wedi dod."

Petawn i wedi gallu siarad heb lefain, byddwn wedi diolch i'r menywod rhyfeddol hynny am eu dewrder a'u hymroddiad i fudiad sy wedi effeithio er gwell ar fywydau cymaint o fenywod yn ystod y 30 mlynedd diwethaf."

Gellir gweld rhaglen y diwrnod, gan gynnwys enwau'r menywod a fu'n cadeirio ac yn dystion, ar blog AMC/WAW. <http://womensarchiwewales.wordpress.com/> Bydd mwy o wybodaeth am y cofnod fideo o'r diwrnod ar gael yn fuan -

cadwch lygad ar y Blog neu e-bostiwch fi ar avril@rolph24.freeserve.co.uk ac fe roddaf wybod i chi beth sy'n digwydd. *Avril Rolph*

DWY WRAIG FU'N NEWYDDIADURA

Yn Rhagfyr 2008 a Ionawr eleni, cyhoeddwyd y *Dictionary of Nineteenth Century Journalist* mewn clawr caled ac ar ffurf ddigidol. Mae'r DNCJ yn cynnwys gwybodaeth am ddwy wraig ryfeddol o Gymru y mae'u bywydau yn crefu am ragor o ymchwil amdanynt.

Sarah Jane Rees (1839-1916)

Sarah Rees, bardd, cerddor, pregethwraig, ymgyrchydd dros ddirwest, athrawes fordwyfaeth a golygydd, ganwyd Sarah Rees yn Llangrannog, Ceredigion a mabwysiadodd yr enw barddol 'Cranogwen'. Yn ferch i gapten llong, pan yr ifanc dysgodd dipyn o Ladin a seryddiaeth, ac ar ôl dilyn cwrs mordwyfaeth yn Llundain, sefydlodd ei hysgol ei hun i ddysgu mordwyfaeth i forwyr ei bro. Rees oedd sefydlydd, a'r fenyw gyntaf i olygu (1878-1889), cylchgrawn misol Cymraeg i fenywod, *Y Frythonnes*, (1878-1891). Modelwyd y cylchgrawn ar *Englishwoman's Domestic Magazine* a chaiff Hannah More ac Elizabeth Fry eu cyflwyno fel menywod delfrydol ynddo. Ei nod oedd hyrwyddo addysg seciwlar a chrefyddol i fenywod. Bwriadwyd ef ar gyfer menywod y dosbarth gweithiol, roedd darluniau ynddo ynghyd ag



Sarah Jane Rees (Cranogwen)

ysgrifau nodwedd, ffuglen, barddoniaeth, tudalen gyngor yn ogystal ag erthyglau ar ryddfrenio a gwaith menywod. Rhoddai gyfle i awduron benywaidd eraill o Gymru, fel Alice Gray Jones, gyfrannu ato. Cheryl Law / Aled Jones Ffynonellau: Beddoe 2004, Jones 1932, Y Bywgraffiadur Ar-lein.

Alice Gray Jones (1852-1943)

Golygydd, ymgyrchydd dros ddirwest, awdur llyfrau plant a phrifathrawes, daeth Alice Jones (Jones gynt) yn brifathrawes ar ei hen ysgol cyn priodi yn 1881. Fodd bynnag, wnaeth ei phriodas ddim cyfyngu ar ei gwaith cyhoeddus fel darlithydd a threfnydd Undeb Dirwest Merched Gogledd Cymru (UDMGC). Dechreuodd ei gyrra

fel awdures yn 1874 trwy gyhoeddi ei barddoniaeth ei hun dan y ffugenw 'Ceridwen Peris', ac erbyn 1880 roedd yn cyfrannu at sawl cylchgrawn seciwlar a chrefyddol Cymraeg ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys cylchgrawn Sarah Rees, *Y Frythones*.

O Hydref 1896 ymlaen, Jones oedd golygydd cylchgrawn newydd, *Y Gymraes*, misolyn anenwadol darluniadol, ac yr oedd, erbyn 1891, wedi llwyddo'n ddeheuig i'w droi yn gylichgrawn swyddogol UDMGC, gan sicrhau cylchrediad o 2,400 trwy ganghennau'r Undeb. Ond byddai Jones hefyd yn cyhoeddi erthyglau ar gofiannau menywod o Gymru ddoe a heddiw, yn hyrwyddo gwaith cyhoeddus menywod, yn cefnogi addysg i fenywod, yn hybu eu rhyddfrefnio, ac yn eu hannog i gyfrannu at y cylchgrawn. Olynwyd Jones fel golygydd gan Mair Ogwen a pharhawyd i gyhoeddi *Y Gymraes* tan 1934. Cheryl Law / Aled Jones

Ffynonellau: Lloyd-Morgan 2004, *Y Bywgraffiadur Ar-lein*, *Y Goleuad* 1943.

Cheryl Law

MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG

Am yr ail flwyddyn yn olynol mae haelioni aelod wedi galluogi AMC/WAW i noddi gwobr o £200 yn y gystadleuaeth hon. Mae hi ar agor i ysgolion babanod, cynradd, uwchradd a cholegau sy'n archwilio i'w treftadaeth Gymreig. Cynigir gwobr AMC/WAW am brosiect yn ymwneud â menyw neu fenywod yn hanes Cymru.

Eleni, ymgais gan Ysgol Penisa'r-waun, yng Ngwynedd, ddewiswyd i dderbyn ein gwobr. Enw'r prosiect oedd *Cynefin/Locality*. Wrth astudio amryfal agweddau'u cynefin cynhwysodd y plant hanesion Marged uch lfan, a'r Celtiaid, Branwen a Siwan. Dangosodd y disgyblion eu bod wedi dysgu llawer iawn am eu cynefin ac yn falch o'u treftadaeth.

Mae beirniaid y gystadleuaeth hon yn cael anhawster i annog ysgolion i gynnwys hanes menywod yn eu gwersi, sy'n tanlinellu pwysigrwydd gwaith AMC/WAW yn ychwanegu at, a hyrwyddo, adnoddau i astudio menywod yn hanes Cymru.

Jenny Sabine

ADOLYGIAD LLYFR

Up the Dove! The History of the DOVE Workshop in Banwen. Mair Francis. VIEW/DOVE Ltd., 2008

Mae Gweithdy DOVE yn llawer o bethau i lawer o bobl. Mae disgrifiad Mair Francis o Fentrau Gwirfoddol Cyfleoedd Dulais yn cwmpasu ei enedigaeth yn Neuadd Billiards Onllwyn yn 1984, hyd at weithgareddau eang-eu-hamrediad ei ganolfan newydd sbon heddiw. Mae'n manylu ar fywydau ac amserau'r menywod a gafodd eu hysbrydoli i ddarparu canolfan ar gyfer dysgu cymunedol, trwy'u profiadau dysgu eu hunain yn sgil streic y glowyr, 1984/5. Er i streic y glowyr ddwyn caledi enbyd i gymunedau glofaol de Cymru, sicrhodd penderfyniad menywod, a oedd yn gysylltiedig â Grŵp Cefnogi Menywod De Cymru, i ddarparu dyfodol gwell ar eu cyfer eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau, y byddai Gweithdy DOVE yn siŵr o oroesi. Mae Mair yn olrhain ei hanes o'r gynhadledd gyntaf yn 1985, *'Welsh Women Make History'*, hyd at ei Gynlluniau Datblygu at y dyfodol yn 2009. Cynigir cyrsiau addysg ar sawl lefel hyd at raddau



Arwerthiant planhigion yn neuadd hardd y Brangwyn, Abertawe, ym mis Ebrill.

rhan-amser, gyda chaffe bwyd iachus a gardd ddymunol i fwyd ymdrechion yr ymennydd. Cymerodd llawer o fenywod lleol fanteision o'r opsiynau a oedd ar gael gan newid eu bywydau ar yr un pryd, trwy ennill graddau, dod yn ASau, a dychwelyd i DOVE i ddysgu a chefnogi eraill. Yn ogystal â darparu am anghenion addysgol a chymunedol, mae DOVE wedi bod yn ganolfan ar gyfer llawer o ddarpariaeth a chyfnewid diwylliannol. Rhoddodd cyrsiau ffilmau a sgrinio, e.e. *Valley Pictures*, Gweithdy Fideo a Ffilm Gorllewin Morgannwg, a Grŵp Hanes Menywod Abertawe, i gyd gyfleoedd i weld, trafod a gwneud ffilmau a fideos.

Denodd y gweithgareddau diwylliannol ddawnsyr o Chile, gyda beirdd a cherddorion ar ymweliad o Ewrop ac UDA. Mae'r gweithgareddau hyn, yn eu tro, yn denu myfyrwyr rhyngwladol, fel y rhai o West Virginia a ymwelodd yn 2008, yn awyddus i ddysgu sut y daeth adeilad cyn-lofaol yn ganolfan ragoriaeth mor fywiog.

Mae dyfyniad priodol yn y llyfr gan Derek Vaughan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot: 'Dywedwyd bod DOVE wedi'i feichiogi mewn anghydfod ac wedi'i eni o anghenraid - mae wedi tyfu yn esiampl ardderchog o'r hyn y byddwn i'n ei alw yn ddinasyddiaeth weithredol - pobl a chymunedau yn cymryd rhan yn, ac yn helpu i, ffurfio'u dyfodol eu hunain'. Fe eilia i hyn'na.

Jen Wilson

ERRATA

Nodwch, os gwelwch yn dda, mai Gwasg Prifysgol Manceinion, NID Faber sydd wedi cyhoeddi llyfr Angela V. John, *Evelyn Sharp*, fel y dwedwyd yng Nghylchlythyr Mawrth. Ymddiheuriadau am y camgymeriad hwn. *Golygydd.*

